YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

26ain Ebrill 2024

Annwyl Riant/Gwarcheidwaid,

**Asesiadau Personol Llythrennedd a Rhifedd (ar-lein)**

Ysgrifennwn atoch i hysbysu bydd disgyblion blwyddyn 8 yn cwblhau asesiadau personol llythrennedd a rhifedd ar-lein yr wythnos nesaf. Mae'r asesiadau yma yn ffocysu ar fedrau llythrennedd a rhifedd, a bydd pob disgybl yn cwblhau 4 asesiad ar-lein yn y meysydd canlynol:

- Cymraeg (darllen)
- Mathemateg: Asesiad gweithdrefnol ac asesiad rhesymu
- Saesneg (darllen)

Gweler rhagor o fanylion ar wefan llywodraeth Cymru: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/asesiadau-darllen-a-rhifedd/asesiadau-personol-gwybodaeth-i-rieni-a-gofalwyr/
Mae'r fideo yma hefyd yn crynhoi pwrpas a diben yr asesiadau yma:
https://www.youtube.com/watch?v=M187gJQ4Jeg

Byddwn yn dilyn yr amserlen isod:

Mawrth: Rhifedd (gweithdrefnol)
Mercher: Saesneg (darllen)
Iau: Cymraeg (darllen)

Bydd yr asesiad Rhifedd (rhesymu) yn digwydd o fewn gwersi TG dros y bythefnos nesaf.

Hoffwn bwysleisio nad oes angen i ddisgyblion bryderu am yr asesiadau yma, ond wrth gwrs, anogwn i bawb ymgyfarwyddo â'r deunydd paratoi. Gellir cael mynediad at rain wrth fewngofnodi i Hwb a chlicio ar 'Asesiadau Personol'.

Bydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn y gefnogaeth briodol (ac amser ychwanegol os yn gymwys) fel rhan o'r asesiadau yma. Plîs cysylltwch â minnau os hoffech wybodaeth bellach drwy ShawC36@hwbcymru.net neu fanylion cyswllt yr ysgol isod.

Yn gywir,

Mr Chris Shaw (Pennaeth Cynorthwyol)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies